

Cofnodion Cyfarfod Arbennig Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher Medi 9fed 2020, cyfarfod Zoom am 5.00yh.

Presennol: Cyngorwyr Gaynor Wood-Tickle (Cadeirydd), Rhys Thomas, Roy Tickle, Catherine Jones, Gaynor Morgan Rees, Dyfrig Berry, Philip Stevens, Lara Pritchard, Irene Williams & Sylvia Jennings; Jenny Barlow (Clerc y Dref) & Carys Jones (Cynorthwydd Dinesig)

Ymddiheuriadau: Cyngorwydd Rob Parkes

Croesawodd y cadeirydd bawb i gyfarfod arbennig y cyngor ym mis Medi trwy Zoom.

216. Datganiad Diddordeb Personol: Dim

217. Trafod sut i ddelio â'r ymgynghoriad cyhoeddus - Cerflun HM Stanley.

a) Gweithgor

Cafwyd trafodaethau ynghylch y gweithgor yn ymwneud â cherflun H M Stanley. Cytunwyd y dylid cael 5 aelod a bydd angen iddynt fod yn wrthrychol, yn ddiduedd ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Y prif amcan fydd gweithio tuag at yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Gwirfoddolodd y Cyngorwyr Tref ganlynol i fod ar y gweithgor -

Cyngorwyr Catherine Jones, Roy Tickle, Gaynor Morgan Rees, Dyfrig Berry a Lara Pritchard.

Cytunwyd ar hyn gan y Cyngorwyr Tref.

b) Amserlen

Penderfynwyd, oherwydd y sefyllfa bresennol gyda Covid 19, y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus tua Mehefin 2021. Mae hyn yn rhoi amser i'r cyfyngiadau pandemig presennol wella yn ogystal â rhoi digon o amser i'r gweithgor gwrdd o bell i drafod a threfnu'r ymgynghoriad cyhoeddus, gan ganiatáu iddo gael ei gynnal yn Neuadd y Dref.

c) Ymgynghorydd i ddelio (Diduedd a thryloyw.)

Cytunwyd nad oedd angen caffael ymgynghorydd ar hyn o bryd i weithredu'r ymgynghoriad cyhoeddus, ond unwaith y bydd y gweithgor yn symud ymlaen gellir adolygu hyn os oes angen.

Gadawodd y Cyng Lara Pritchard y cyfarfod am 5.27yh

Gofynnodd y Cyngorwyr i Glerc y Dref roi Datganiad i'r Wasg ar y wefan ac yn Free Press Sir Ddinbych i gynghori ar y camau sy'n cael eu cymryd gyda cherflun HM Stanley.

Gadawodd y Cyng Rhys Thomas y cyfarfod am 5.33yh

Diolchodd y Maer, Cyngorwydd Gaynor Wood-Tickle i bawb am ddod.

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 5.34 yh.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad.....